


# *Cyd-Bererinion*

Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor

# *The Pilgrim Friends*

of Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor





Dail a chnau cyll yw arwyddlun y **Cyd-Bererinion**. Maent yn dwyn i gof y ffens gyll blethwaith – y **bangor** gwreiddiol hwnnw – a godwyd gan Deiniol fel cysgod a noddfa i'r gymuned y bu iddo'i chynnull o gwmpas ei hun ar lan yr Adda yn y chweched ganrif.

Hazel leaves and nuts provide an emblem for the **Pilgrim-Friends**. They remind us of the hazel wattle fence – the original **bangor** –raised by Deiniol as a shelter and sanctuary for the community he gathered around himself by the River Adda in the sixth century.


## *Un sy'n cyd-gerdded*

ag eraill yw pererin, gan ymhyfrydu yn eu cwmni, eu cefnogi ar hyd y daith, a chanfod mwy am ffyrdd Duw ar gyfer ein bywydau ein hunain. Os ydych wedi croesi trothwy Cadeirlan Deiniol Sant fel pererin, ymwelydd neu gyfaill, beth am barhau i gyd-gerdded ni fel aelod o Gyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor?

## *To be a pilgrim*

means walking alongside others, delighting in their company, supporting them along the journey, and discovering more about God's ways for our own lives. If you have crossed the threshold of Saint Deiniol's Cathedral as a pilgrim, visitor or friend, why not continue to walk alongside us as a member of the Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor?





# *Cyflwyniad*

## Ar ein Sul Gwaddol Ganol Haf yn 2023, buom yn dathlu bywyd Cadeirlan Deiniol Sant,

gan nodi diwedd blwyddyn gorawl gyfoethog ac egnïol, ffarwelio â rhai o'n Coryddion ac Ysgolheigion yn Gân, croesawu ychwanegiadau newydd i'n casgliad o Urddwisgoedd Gwynedd i harddu ein haddoliad, codi arian ar gyfer ein helusen Canol Haf, Ambiwlans St John Cymru, ac ymgasglu i fwynhau cwmni'n gilydd yng ngardd y Deondy. Hwn hefyd oedd y diwrnod pan lansiwyd **Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**.

Mae Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor yn gymdeithas newydd y'i hadeiledir ar dir hynafol, cysegredig. O'i lansiad ar ein Sul Gwaddol Ganol Haf yn 2023, rydym yn gobeithio y bydd y Cyd-Bererinion yn tyfu'n gymuned o'r rhai pell ac agos sydd am gerdded gyda ni fel rhan o gymuned Cadeirlan Deiniol Sant ac i gefnogi ac annog ein taith i'r dyfodol trwy weddi, cwmnïaeth a chodi arian.

Hyderwn y bydd amryw o'r Cyd-Bererinion yn addolwyr cyson yn y Gadeirlan neu yn Eglwys y Groes ym Maesgeirchen, ar gyrion y ddinas. Serch hynny, gobeithiwn hefyd y bydd y Cyd-Bererinion yn cynnwys pobl sy'n ymroddedig i fywyd yr eglwys yn eu heglwysi lleol ledled Esgobaeth Bangor a thu hwnt, ond sy'n goleddu'r Gadeirlan yn eu gweddïau ac yn eu calonnau. Efallai y bu i chi addoli yma'n y gorffennol neu ganu'n y Côr cyn symud i ffwrdd, neu'ch bod yn offeiriad sy'n gwerthfawrogi eich cysylltiad â'r Gadeirlan fel man sy'n cynnig ysbrydoliaeth ar gyfer eich gweinidogaeth eich hun, neu'n riant neu'n ofalwr i blentyn sy'n mynychu ein grŵp plant, Camau Bach, neu'n un sy'n hoff o'r gerddoriaeth gorawl gaiff ei pherfformio yma mor gelfydd o wythnos i wythnos, neu'n ymwelydd a ddaeth yma a chael eich hun ar ddechrau pererindod a fydd yn eich dwyn yn ôl yma eto ar daith bywyd. Ac efallai y bydd Cyd-Bererinion eraill yn byw ymhellach byth i ffwrdd, a hyd yn oed dramor, gan gynnal cysylltiad â'n bywyd ar y cyd trwy ein sianel YouTube, cyfarfodydd Zoom a rhifynnau o *Buchedd Bangor*.

Ble bynnag yr ydych, diolch am eich gofal am y Gadeirlan a'ch diddordeb mewn cyd-gerdded â ni wrth i'n pererindod o ffydd, gobaith a chariad barhau ac ymbellhau feunydd.





# Introduction

## On our Midsummer Foundation Sunday in 2023, we celebrated the life Saint Deiniol's Cathedral,

marking the end of a rich and energetic choral year, saying farewell to some of our Choristers and Choral Scholars, welcoming new additions to our collection of Gwynedd Vestments to beautify our worship, raising money for our Midsummer charity, St John Ambulance Cymru, and gathering to enjoy companionship in the Deanery garden. It was also the day on which we launched the **Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor**.

The Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor is a new association built on ancient, sacred ground. From its launch on our Midsummer Foundation Sunday in 2023, we hope that the Pilgrim-Friends will grow into a community of those far and wide who want to walk with us as part of the community of Saint Deiniol's Cathedral and to support and encourage our journey into the future by prayer, companionship and giving.

We hope that many of the Pilgrim-Friends will be regular congregants at the Cathedral or at Eglwys y Groes at Maesgeirchen, on the outskirts of the city. However, we also hope that the Pilgrim-Friends will include people who are committed to the life of the church in their home churches across the Diocese of Bangor and beyond, but who hold a special place for the Cathedral in their prayers and on their hearts. You may be a former congregant or chorister who has moved away, a priest who values your link to the Cathedral as an inspiration for your own ministry, a parent or carer of a child attending our Camau Bach toddlers' group, a lover of the choral music we perform so beautifully here week by week, or a visitor who came here and found yourself at the beginning of a pilgrimage that will draw you back here again on life's journey. Yet other Pilgrim-Friends may live far away, and even overseas, sustaining a connection to our common life through our YouTube channel, Zoom meetings and editions of *Buchedd Bangor*.

Wherever you are, thank you for your care for the Cathedral and your interest in walking alongside us as our pilgrimage of faith, hope and love continues and endures.




Aelodaeth

## Mae aelodau Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor yn derbyn:

- Copi rhad ac am ddim o **Yn Gysgod a Noddfa**, Adroddiad Blynyddol y Cyd-Bererinion
- Gwahoddiad i Arddwest y Cyd-Bererinion ar Suliau Gwaddol Ganol Haf yn y dyfodol, a mynediad am ddim i ddigwyddiadau cerddorol Suliau Gawddol Ganol Haf
- Cyfle cynnar i gadw seddi yn ein Naw Llith a Charol y Nadolig, ein defodau arbennig yn ystod yr Wythnos Fawr, a digwyddiadau gŵyl yr Hydref.
- Gwahoddiad i ymuno â phererindodau ac ymweliadau'r Cyd-Bererinion o fewn Esgobaeth Bangor a thu hwnt

## Ffi aelodaeth

Mae aelodaeth Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor yn costio lleiafswm o £30.00 y flwyddyn, neu £50.00 am gyd-aelodaeth, a delir yn flynyddol trwy daliad Debyd Uniongyrchol.

## I ymuno

I ymuno â Chyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor, llenwch y ffurflen sydd wedi'i chynnwys yn y llyfryn hwn neu lawrlwythwch y llyfryn ar-lein fel PDF, a'i ddychwelyd â llaw i aelod o dîm y Gadeirlan, drwy'r post i swyddfa'r Gadeirlan yn Nhŷ Deiniol, neu fel ffotograffau digidol neu PDF wedi'i olygu i gyfeiriad e-bost y Gadeirlan.

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, mae'n debyg y byddwch yn ei chael hi'n haws talu drwy ein cyfrif Paypal, oherwydd gall taliadau Debyd Uniongyrchol o gyfrifon tramor achosi problemau – cysylltwch â thîm y Gadeirlan drwy e-bost am gymorth.





# *Membership*

## Members of the Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor receive:

- A complimentary copy of **Yn Gysgod a Noddfa**, the Pilgrim-Friends Annual Report
- An invitation to our Pilgrim-Friends Garden Party on future Midsummer Foundation Sundays, and free entry to Midsummer Foundation Sunday musical events
- An early opportunity to reserve seats at our Nine Lessons & Carols of Christmas, our Holy Week special observances, and our October festival events
- An invitation to join Pilgrim-Friends pilgrimages and visits within the Diocese of Bangor and beyond

## Membership fee

Membership of the Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor costs a minimum of £30.00 per year, or £50.00 for joint membership, paid annually through a Direct Debit payment.

## To join

To join the Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor, complete the form included in this booklet or download the booklet online as a PDF, and return it by hand to a member of the Cathedral team, by post to the Cathedral office at Tŷ Deiniol, or as digital photographs or an edited PDF to the Cathedral's email address.

If you live outside the UK, you will probably find it easier to pay through our Paypal account, as Direct Debit payments from overseas accounts can cause problems – please contact the Cathedral team by email for assistance.



## Manylion y Cyd-Bererin
## Pilgrim-Friend details

Cyd-Bererin cyntaf
First Pilgrim-Friend

Enw
Name

Ail Gyd-Bererin (cyd-aelodaeth)
Second Pilgrim-Friend (for joint membership)

Enw
Name

Cyfeiriad cartref
Home address

Cod post
Postcode

E-bost
Email

Rwyf am wneud rhodd trwy Ddebyd Uniongyrchol i **Gadeirlan Deiniol Sant** o
I want to make a donation via Direct Debit to **Saint Deiniol's Cathedral** of

**£** **y flwyddyn per year**

Ystyriwch fy rhodd (neu unrhyw swm a nodaf wedi hynny) yn rhodd Rhodd Cymorth.
I want to Gift Aid my donation above (or any sum I may subsequently specify).

Ticiwch y bocs priodol
Please tick the appropriate box

Rwy'n drethdalwr yn y DU.
I am a UK taxpayer.

☐

Rwy'n deall mai fi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw wahaniaeth os wyf yn talu llai o Dreth Incwm a / neu o dreth Enillion Cyfalaf na'r swm o Rodd Cymorth a hawlir ar fy holl roddion yn y flwyddyn dreth honno.
I understand that if I pay less Income Tax and / or Capital Gains tax than the amount of Gift Aid claimed on all my donations in that tax year it is my responsibility to pay any difference.

Nid wyf yn talu digon o dreth.
I do not pay sufficient tax.

☐

Felly nid wyf am i chi adennill treth ar fy rhoddion.
Therefore I do not want you to reclaim tax on my donations.

Rwyf am i Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru gynyddu fy rhodd yn awtomatig bob mis Ebrill yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthol am y flwyddyn galendr flaenorol.
I wish The Representative Body of the Church in Wales to automatically increase my donation each April in line with the previous calendar year's CPI increase.

Ydw. Yes. ☐

Nac ydw. No. ☐

Llofnod(ion) • sydd hefyd yn ganiatád i dderbyn newyddion drwy'r post ac e-bost
Signature(s) • by which you also consent to being contacted post and email with news and details

## Cyfarwyddwyd i'ch banc neu i'ch cymdeithas adeiladu dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol **Instruction to your bank or building society to pay by Direct Debit**

Enw(au) deiliad / deiliaid y cyfrif
Name(s) of account holder(s)

Rhif cyfrif y banc / cymdeithas adeiladu
Bank / building society account number

Cod didoli'r gangen
Branch sort code

Enw a chyfeiriad llawn eich banc neu eich cymdeithas adeiladu
Name and full postal address of your bank or building society

At: Y Rheolwr
To: The Manager

Enw'r banc / cymdeithas adeiladu
Name of bank / building society

Cyfeiriad a cod post
Address and postcode

Cyfarwyddyd i'ch Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu: Talwch i Gorff y Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru Ddebydau Uniongyrchol o'r cyfrif a enwir yn y Cyfarwyddyd hwn yn amodol ar y diogelwch a gaiff ei warantu gan y Warant Debyd Uniongyrchol. Rwy'n deall y gall Corff y Cynrychiolwyr gadw'r Cyfarwyddyd hwn ac, os felly, yr anfonir y manylion ymlaen yn electronig at fy manc / cymdeithas adeiladu.

Instruction to your Bank or Building Society: Please pay The Representative Body of The Church in Wales ("the RB") Direct Debits from the account detailed in this Instruction subject to the safeguards assured by the Direct Debit Guarantee. I understand that this Instruction may remain with the RB and, if so, details will be passed electronically to my bank / building society.

Llofnod(ion)
Signature(s)

Dyddiad
Date

At ddefnydd swyddfa
Office use

At ddefnydd swyddfa
Parish code

Rhif DG
DG number

ID rhoddwr
Donor ID

# Nodiadau
# Notes

## Gweinyddu
## Adminstration

Gweinyddir y gyfundrefn roi hon gan Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, sy'n elusen gofrestredig rhif 1142813. Mae Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd Diogelu Data o ddifrif. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut y cedwir eich data a sut y caiff ei brosesu yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice. Drwy lenwi'r ffurflen hon rydych yn awdurdodi Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1142813, i gasglu o'ch cyfrif banc yn flynyddol y swm a nodir uchod neu unrhyw swm a nodwch wedi hynny. O fewn mis i'w dderbyn bydd yr Eglwys yng Nghymru yn anfon eich rhodd (a'r dreth a ad-delir os bydd hynny'n briodol) ymlaen i Gadeirlan Deiniol Sant.

This giving scheme is administered by the Representative Body of the Church in Wales, which is a registered charity number 1142813. The Representative Body of the Church in Wales takes Data Protection seriously. Information on how your data is held and how it is processed can be found at: https://www.churchinwales.org.uk/en/privacy-notice. By completing the form, you authorise The Representative Body of the Church in Wales, (Registered Charity Number 1142813), to collect from you bank account annually the amount shown above or such sum as you may subsequently specify. Within a month of its receipt the Church in Wales will forward your donation (and subsequent reclaimed tax if appropriate) to Saint Deiniol's Cathedral.

## Y Warant Debyd Uniongyrchol
## The Direct Debit Guarantee

**Cynigir y Warant hon gan bob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddyd i dalu Debydau Uniongyrchol.**

Os bydd unrhyw newid i swm, dyddiad neu amlder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 1142813, yn eich hysbysu ddeng niwrnod gwaith cyn y debydir eich cyfrif neu fel y cytunwyd yn wahanol. Os gofynnwch i Gorff y Cynrychiolwyr gasglu taliad, fe gewch gadarnhad o'r swm a'r dyddiad ar adeg y cais.

Os yw Corff y Cynrychiolwyr neu eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwneud camgymeriad wrth dalu eich Debyd Uniongyrchol, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ac ar unwaith gan eich banc neu gymdeithas adeiladu;

Os derbyniwch ad-daliad nad oes gennych hawl iddo, rhaid i chi ei dalu'n ôl i Gorff y Cynrychiolwyr pan ofynnir i chi.

Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol unrhyw bryd trwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Mae'n bosib y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Rhowch wybod i ninnau hefyd, os gwelwch yn dda.

**This Guarantee is offered by all banks and building societies that accept instructions to pay Direct Debits.**

If there are any changes to the amount, date or frequency of your Direct Debit The Representative Body of The Church in Wales Registered Charity Number 1142813 (the RB) will notify you ten working days in advance of your account being debited or as otherwise agreed. If you request the RB to collect a payment, confirmation of the amount and date will be given to you at the time of the request.

If an error is made in the payment of your Direct Debit, by the RB or your bank or building society, you are entitled to a full and immediate refund of the amount paid from your bank or building society;

If you receive a refund you are not entitled to, you must pay it back when the RB asks you to.

You can cancel a Direct Debit at any time by simply contacting your bank or building society. Written confirmation may be required. Please also notify us.

Hysbyswch Adran Rhodd Cymorth yr Eglwys yng Nghymru os byddwch (1) Am ganslo'r datganiad hwn (2) Yn newid eich enw, cyfeiriad eich cartref neu eich e-bost (3) Heb fod bellach yn talu digon o dreth ar eich incwm a/neu enillion cyfalaf. Os ydych yn talu treth incwm ar y raddfa uwch neu ychwanegol ac am dderbyn y gostyngiad ychwanegol yn y dreth sy'n ddyledus i chi, rhaid i chi gynnwys eich holl roddion Rhodd Cymorth ar eich ffurflen dreth Hunan Asesiad neu ofyn i Gyllid a Thollau EM addasu eich cod treth.
Please notify the Church in Wales' Gift Aid Department if you (1) Want to cancel this declaration (2) Change your name, home address or email address (3) No longer pay sufficient tax on your income and/or capital gains. If you pay Income Tax at the higher or additional rate and want to receive the additional tax relief due to you, you must include all your Gift Aid donations on your Self-Assessment tax return or ask HM Revenue and Customs to adjust your tax code.



**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor